**<u>Polisi Absenoldeb Teuluol Torfaen</u>**

**Cyflwyniad**

1. Mae gan aelodau hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol a, gyda hynny, maen nhw'n gallu bod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod, gan gynnwys cyfarfodydd o'r gweithgor ble mae hynny'n briodol, yn ystod cyfnodau o absenoldeb teuluol. Mae'r polisi'n rhoi hawl i bum math gwahanol o absenoldeb teuluol:
    a. absenoldeb mamolaeth,
    b. absenoldeb cefnogaeth newydd-anedig,
    c. absenoldeb mabwysiadwr,
    d. absenoldeb cefnogaeth mabwysiadu, ac
    e. absenoldeb rhieni.

2. Mae'r Polisi Absenoldeb Teuluol yn rhoi hawl i aelodau sy'n cael baban neu sy'n dod yn gyfrifol am edrych ar ôl plant allu barhau fel aelodau gydag absenoldeb cydnabyddedig, cyfiawn, mewn ffordd agored, yn hytrach na bod yn agored i feirniadaeth posibl am beidio â chyflawni eu dyletswyddau fel aelodau.

3. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (PGD) yn cymryd cyfrifoldeb am ddelio â hysbysiadau o absenoldeb teuluol. Unwaith y bydd wedi ei hysbysu bod aelod yn cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol, rhaid i'r PGD ddweud am hynny wrth bob person perthnasol, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.
    a. yr aelod llywyddol,
    b. cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod lleol; a
    c. arweinydd pob grŵp gwleidyddol yn yr awdurdod lleol.

4. Dylai'r PGD gymryd agwedd hyblyg tuag at unrhyw gais i amrywio dyddiadau cychwyn neu orffen yr absenoldeb, cyhyd â'u bod o fewn y cyfanswm a ganiateir. O ran camau a allai arwain at dynnu'r hawl yn ôl, dylai fod yna sail resymegol gyda thystiolaeth am wneud hynny.

5. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, rhaid i'r PGD gael ei hysbysu'n ysgrifenedig cyn unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol. Byddai hysbysiad trwy e-bost neu unrhyw fformat electronig arall yn bodloni'r gofyniad ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad gofynnol yn y Rheoliadau.

**Absenoldeb Mamolaeth**

6. **<u>Ni</u>** fydd y PGD yn gofyn am dystiolaeth o feichiogrwydd na dyddiad disgwyl genedigaeth oni bai bod lle i amau'r hysbysiad a roddwyd gan yr aelod.

7. Mae gan aelodau sy'n rhoi genedigaeth hawl i hyd at 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth.

**Absenoldeb Cefnogaeth Newydd-anedig**

8. Anelir absenoldeb cefnogaeth newydd-anedig at gefnogi partneriaid mamau trwy eu galluogi i gymryd cyfnod o absenoldeb yn ystod y 56 diwrnod cyntaf ar ôl genedigaeth.

9. Bydd gan Aelodau'r hawl i gymryd mwyafswm o 2 wythnos o absenoldeb cefnogaeth newydd-anedig os mai nhw yw'r tad biolegol neu ofalwr enwebedig eu cymar ar ôl genedigaeth eu plentyn/plant.

**Absenoldeb Rhieni ar y Cyd**

10. Gofynnir i Aelod sydd wedi gwneud trefniadau Absenoldeb Rhieni ar y Cyd trwy eu gwaith roi gwybod i'r Cyngor am y rhain cyn gynted â phosibl. Gwneir pob ymdrech i ailadrodd y trefniadau yma o ran absenoldeb o'r Cyngor.

11. Pan fo'r ddau riant yn Aelodau, gellir rhannu'n absenoldeb am hyd at 24 wythnos yn y chwe mis cyntaf a 26 wythnos ar gyfer unrhyw absenoldeb a gytunwyd ar ôl hynny, am hyd at fwyafswm o 50 wythnos. Gellir gwneud trefniadau arbennig ac eithriadol mewn achosion o enedigaeth gynamserol.

**Absenoldeb Mabwysiadwyr**

12. Bydd gan Aelod sy'n mabwysiadu plentyn trwy asiantaeth mabwysiadu gymeradwy hawl i gymryd hyd at 26 wythnos o absenoldeb mabwysiadwr. Mae'r hawl yn cychwyn ar ddyddiad gosod y plentyn yn gorfforol gyda'r aelod i'w fabwysiadu. Dyddiad go iawn gosod y plentyn sy'n bwysig ar gyfer dechrau'r absenoldeb hwn, nid diwrnod y gosod yn ôl unrhyw ddogfen gyfreithiol.

13. Does dim angen tystiolaeth o fabwysiadu gan yr aelod er mwyn bod â hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadwr. <u>**Ni fyddai**</u> mabwysiadu nifer o blant ar yr un pryd yn galluogi aelod i gymryd cyfnodau niferus o absenoldeb mabwysiadwr.

14. Mae opsiwn yn bod i ymestyn Absenoldeb Mabwysiadwyr i hyd at 52 wythnos trwy gytundeb os oes angen.

**Absenoldeb Cefnogaeth Mabwysiadu**

15. Gall aelod sydd mewn perthynas â pherson arall sy'n mabwysiadu plentyn gymryd pythefnos o absenoldeb cefnogaeth mabwysiadu.

16. **Nid oes** gan aelod hawl i gymryd absenoldeb mabwysiadwr **ac** absenoldeb cefnogaeth mabwysiadu mewn perthynas â'r un plentyn. **Ni** fyddai mabwysiadu nifer o blant ar yr un pryd yn galluogi aelod i gymryd cyfnodau niferus o absenoldeb mabwysiadu newydd.

17. Os yw aelod yn mabwysiadu plentyn ar y cyd ag aelod arall, gall un aelod ddewis fod yn fabwysiadwr y plentyn a bydd ganddo/i hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadwr. **Ni** fyddai gan yr aelod arall hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadwr ond byddai â hawl i gyfnod o absenoldeb cefnogaeth mabwysiadu.

**Absenoldeb Rhieni**

18. Mae absenoldeb rhieni ar gael mewn amgylchiadau eithriadol i aelodau sydd wedi dod yn gyfrifol dros dro am ofalu am blentyn o dan 14 oed, yn ogystal ag aelodau sy'n cymryd cyfrifoldebau mwy parhaol a ddisgrifiwyd uchod.

19. Rhaid i'r aelod hysbysu'r PGD o'r cyfrifoldeb hwn ac mae'n rhaid i'r PGD fod yn fodlon fod y fath gyfrifoldeb yn un go iawn, ac efallai bydd angen tystiolaeth gefnogol arno/i.

20. Er na fydd efallai'n bosibl pob amser, dylai'r aelod geisio hysbysu PGD am y cyfnod(au) y bwriedir bod yn absennol. Efallai bydd aelod yn penderfynu cynnal absenoldeb rhiant mewn

nifer o gyfnodau llai yn ystod y flwyddyn o'r amser pan ddaeth yr aelod i fod yn gyfrifol am y plentyn. Mae'n rhaid i'r aelod hysbysu'r PGD am y cyfnodau o absenoldeb o flaen llaw.

**Dweud am Absenoldeb**

21. Mae gofyn i'r PGD roi gwybod i Aelod Llywyddol y Cyngor, cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac arweinwyr pob grŵp gwleidyddol yn y Cyngor am unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol cyn iddo ddigwydd neu gyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Mae rhyddid i'r PGD roi gwybod i unrhyw bobl eraill y mae'n teimlo ei fod yn angenrheidiol.

**Tynnu yn ôl Cais am Absenoldeb Teuluol**

22. Gall y PGD benderfynu canslo neu gwtogi ar absenoldeb teuluol aelod os yw'n credu fod yr absenoldeb a ganiatawyd yn ffug, wedi ei gamddefnyddio neu os yw'n credu nad oes gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol. Byddai'n agored i'r PGD, mewn sefyllfa o'r fath, benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Moeseg a Safonau iddyn nhw ei ystyried.

**Y Broses Apêl**

23. Gall aelod apelio yn erbyn penderfyniad i dynnu hawl i absenoldeb teuluol yn ôl. Rhaid i gwynion fod yn ysgrifenedig, serch hynny, fel nodwyd uchod, byddai cwyn mewn ffurf electronig yn bodloni'r gofyniad yma. Bydd y PGD wedyn yn gosod yr apêl gerbron yr Aelod Llywyddol, sydd wedyn yn gorfod ei roi gerbron panel o dri aelod a benodwyd gan yr awdurdod at y diben (ni all y panel gynnwys yr aelod llywyddol).

24. Bydd y panel wedyn yn penderfynu'r cwyn. Bydd y panel yn penderfynu a oes gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol o dan y Rheoliadau.

25. Pan fo'r panel yn penderfynu fod gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, bydd yr aelod yn cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol yn unol â'r Rheoliadau.

26. Efallai bydd cyfnod o absenoldeb teuluol wedi cael i ganslo gan yr awdurdod lleol hanner ffordd trwy'r cyfnod o absenoldeb teuluol. Ar ôl ei sefydlu i ystyried cwyn, gallai'r panel wedyn benderfynu bod gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd gan yr aelod hawl i weddill eu cyfnod o absenoldeb a nodwyd yn y Rheoliadau. Pan fo panel yn penderfynu nad oes gan aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, ni fydd gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol o dan y Rheoliadau a bydd disgwyl felly iddynt barhau â'u dyletswyddau fel aelod.

**Dyletswyddau yn ystod Absenoldeb Teuluol**

27. Bydd unrhyw gyfnod pan fo aelod o awdurdod lleol yng Nghymru yn arfer eu hawl i absenoldeb teuluol yn disodli eu dyletswydd gyfreithiol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i fynd i gyfarfod o'r Cyngor o fewn cyfnod o chwe mis.

28. Cyn cychwyn absenoldeb mamolaeth, mabwysiadwr neu riant (yn unig), dylai'r Aelod dan sylw gadarnhau'n ysgrifenedig i'r PGD eu bwriad o barhau i ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd a roddwyd i'r aelod hwnnw yn ystod y cyfnod o absenoldeb teuluol. Os cytunir hynny, bydd aelod sydd ar gyfnod o absenoldeb o'r fath yn cael mynychu cyfarfod penodol neu fath penodol o gyfarfod neu gyflawni dyletswydd benodol neu fath o ddyletswydd pan dderbynnir caniatâd gan yr aelod llywyddol. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo gan yr

aelod ddiddordeb arbennig sy'n hysbys mewn mater neu os oes busnes brys yn effeithio ar eu hardal leol yn cael ei ystyried. Cyn cytuno i gais o'r fath, mae'n rhaid i'r aelod llywyddol hysbysu arweinwyr pob grŵp gwleidyddol ar y cyngor. Os bydd anghytundeb, dylai panel a sefydlir fel nodir uchod wneud y penderfyniad terfynol.

29. Cyn cychwyn absenoldeb teuluol, efallai bydd gofyn i'r Aelod dan sylw yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod o absenoldeb teuluol, barhau i gyflawni unrhyw ddyletswydd a roddir i'r aelod hwnnw. Mae'r ddarpariaeth yn bod i alluogi gofyn i aelod sydd ar absenoldeb teuluol i ddod i gyfarfod os bydd hwnnw efallai heb gworwm fel arall. Cytunir ar drefniadau fesul achos, gan ddibynnu ar yr hyn y credir ei fod yn rhesymol ac yn ymarferol. Efallai bod yna faes arbennig o arbenigedd gan yr aelod a fyddai'n anodd ei gael o rywle arall dros dro, a allai awgrymu y gellid disgwyl ymrwymiad cyfyngedig gan aelod os yw amgylchiadau'n caniatáu hynny.

**Tâl**

30. Bydd Aelodau i gyd yn parhau i dderbyn eu Lwfans Sylfaenol yn llawn tra eu bod ar absenoldeb teuluol.

31. Bydd Aelodau sydd â hawl i Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn parhau i dderbyn eu lwfans yn llawn tra eu bod ar absenoldeb teuluol.

32. Pan fo rhywun yn cael eu penodi i weithredu yn absenoldeb yr aelod yn ystod ei (h)absenoldeb, bydd y person hwnnw'n derbyn Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig ar sail pro rata dros y cyfnod o absenoldeb dros dro.

33. Bydd talu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig, boed hynny i brif ddeiliad y LCA, neu rywun sydd wedi cymryd eu lle, yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol, yn parhau am gyfnod o chwe mis, neu tan ddyddiad Cyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor, neu'r dyddiad pan fo'r aelod sy'n cael absenoldeb yn wynebu etholiad nesaf (pa un bynnag sydd gyntaf). Ar yr adeg hon, adolygir y sefyllfa, a bydd yn destun estyniad posibl am gyfnod pellach o chwe mis.

34. Os yw Aelod sydd wedi eu penodi i gymryd lle'r aelod sy'n absennol mewn swydd â chyflog eisoes, mae'r rheolau cyffredin yn ymwneud â thaliad o fwy nag un Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn berthnasol.

35. Oni bai bod yr Aelod sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn cael eu disodli o'u swydd mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o'r Cyngor yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol, neu fod y Grŵp y maen nhw'n aelod ohono'n colli rheolaeth o'r Cyngor yn ystod cyfnod eu habsenoldeb, byddan nhw'n dychwelyd ar ddiwedd eu cyfnod absenoldeb i'r un swydd, neu swydd amgen gyda statws a thâl cyfatebol o gymharu â'r swydd yr oedd ganddyn nhw cyn yr absenoldeb.

**Effaith ar gydbwysedd gwleidyddol**

36. Dylid nodi **<u>na</u>** ddylai absenoldeb aelod am resymau absenoldeb teuluol achosi unrhyw aildrefnu cynrychiolaeth yn unol â chydbwysedd gwleidyddol. Am gyfer cyfrifiadau o'r fath, dylid trin yr aelod fel aelod llawn o'r cyngor ac felly dylai unrhyw newid fod ar gael dim ond i aelod o'r un grŵp gwleidyddol.

**Ymddiswyddo ac Etholiadau**

37. Os yw Aelod yn penderfynu peidio â dychwelyd ar ddiwedd y cyfnod o absenoldeb, mae'n rhaid iddyn nhw hysbysu'r Cyngor cyn gynted â phosibl. Bydd lwfansau i gyd yn dod i ben y diwrnod y daw'r ymddiswyddiad i rym.

38. Os cynhelir etholiad yn ystod absenoldeb teuluol yr Aelod ac maen nhw'n methu â chael eu hail-ethol neu maen nhw'n penderfynu peidio â sefyll, bydd eu lwfans sylfaenol a'r LCA, os yw'n berthnasol, yn dod i ben ar y dydd Llun ar ôl dyddiad yr etholiad pan fyddan nhw'n gadael eu swydd.

**Amrywiol**

39. Mae polisi Absenoldeb Teuluol Torfaen wedi ei gynhyrchu yn unol ag: 'Adran 30 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011', 'Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013' a'r 'Cyfarwyddyd Statudol Absenoldeb o Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol: Absenoldeb Teuluol (Mawrth 2022)'. Dylid cyfeirio at y dogfennau yma fel canllaw diamod ar gyfer lwfansau o dan y 'Polisi Absenoldeb Teuluol' ac, os cyfyd anghydfod ynglŷn â gweithredu'r polisi a gytunwyd.